# Canllawiau ar gyfer ysgrifennu darn i *Gwerddon Fach*

## Nod *Gwerddon Fach*

Diolch ichi am fynegi diddordeb mewn ysgrifennu darn am eich hymchwil ar gyfer *Gwerddon Fach.*

Bwriad *Gwerddon Fach* yw cyflwyno ymchwil academaidd cyfrwng Cymraeg i gynulleidfaoedd newydd trwy gyfrwng gwefan Golwg360. Bydd *Gwerddon Fach* yn gymysgedd o ddeunydd sydd yn addasiadau o erthyglau a gyhoeddir yn *Gwerddon* a darnau gwreiddiol sydd yn codi o'r ymchwil ddiweddaraf. Dyma gyfle i ennyn diddordeb pobl yn gyffredinol yn ein pynciau ymchwil a dangos yr ystod eang o waith sy'n cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg gan staff, aelodau, myfyrwyr a chefnogwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Y gobaith yw y bydd yn ychwanegiad gwerthfawr at ein diwylliant. Mae'r ddogfen hon yn cynnig rhai awgrymiadau ar gyfer arddull.

## Arddull

### 1. Yn ymarferol, be fydd cynnwys erthyglau Gwerddon Fach?

Ymchwil gwreiddiol, meddyliau ar bwnc penodol, trafodaeth ar ddatblygiadau newydd/tueddiadau diddorol mewn maes. Mae'n bosib y bydd rhai erthyglau yn berthnasol i faterion cyfoes a/neu yn cyfrannu at drafodaeth gyhoeddus ar bolisi.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

### 2. Sut mae *Gwerddon Fach* yn wahanol?

Os bydd erthyglau yn addasiadau o erthyglau yn *Gwerddon*, yr un fydd y deunydd crai a'r ffeithiau, ond bydd angen addasu'r ffordd y cyflwynir y ffeithiau hynny. Efallai y bydd angen ysgrifennu mewn arddull ychydig mwy newyddiadurol. Mae hyn yn codi'n uniongyrchol o'r nod, sef cyfleu gwybodaeth yn effeithiol i gynulleidfa darged newydd.

### 3. Pwy yw cynulleidfa *Gwerddon Fach*?

Pobl sydd â rhywfaint o ddiddordeb neu chwilfrydedd yn y pwnc. Cyn bod ar dudalen *Gwerddon Fach*, maen nhw hefyd yn amlwg yn barod i ddarllen deunydd cymharol heriol. Fodd bynnag, pobl leyg fydd eu trwch, heb wybodaeth arbenigol. Fe allan nhw amrywio o fod yn fyfyrwyr ysgol 15 oed i bobl yn eu 90au (fel eich mam neu dad-cu!).

### 4. Sut fydd y gynulleidfa yn darllen *Gwerddon Fach*?

Mae technoleg cyfathrebu yn bwysig ac, felly, mae amodau darllen hefyd yn bwysig. Efallai y bydd y gynulleidfa yn darllen ar ddyfais symudol, e.e. llechen neu ffôn. Y sefyllfa fwya' ffurfiol fyddai ar liniadur.

Bydd rhai yn sicr yn darllen o ran diddordeb hamdden ac, efallai, ar drên neu wrth aros am rywbeth neu'i gilydd, neu mewn hanner awr fach rydd ar y soffa. Mae hynny'n wahanol iawn i eistedd wrth ddesg mewn llyfrgell yn canolbwyntio'n llwyr ar y testun.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

### 5. Beth yw ystyr 'effeithiol'?

Nid rhoi digon o wybodaeth i'r darllenydd allu pasio arholiad gradd ond codi diddordeb, ennyn chwilfrydedd pellach, trosglwyddo digon o wybodaeth i roi gafael ar y syniad neu ddamcaniaeth ganolog a rhoi elfen o bleser hefyd.

### 6. Darllenydd, darllenydd, darllenydd

Wrth eistedd i lawr a dechrau ysgrifennu neu addasu erthygl dylid rhoi'r darllenydd yn gyntaf a meddwl trwy'r amser am ddarllenwyr a'u hamgylchiadau. Mae gallu'r gynulleidfa i ddeall yn allweddol.

### 7. Dewis a dethol

Er mor annwyl fyddan nhw i chi, weithiau bydd rhaid hepgor ychydig fanylion os nad ydyn nhw'n allweddol. Mae'n rhaid meddwl eto am y nod. Synied am hyn fel petai gyda chi stori i'w dweud. Beth ydi'r stori ganolog? Fe ddylai popeth wedyn atgyfnerthu'r stori yna a helpu i'w chyfleu'n effeithiol.

### 8. Hyd

Dylai erthygl i *Gwerddon Fach* fod tua 1,000 o eiriau. Y rheswm am hyn yn rhannol yw oherwydd natur y darllenwyr (diddordeb nid arbenigedd), ac amgylchiadau (ar sgrin dyfais). Mae hynny'n golygu bod angen canolbwyntio ar brif elfennau eich stori.

Dyma'r pwynt allweddol o ran ffordd o feddwl: gwell cael erthygl llai manwl sy'n cael ei darllen gan amryw nag erthygl gynhwysfawr, sy'n cynnwys popeth ond yn cael ei darllen gan neb. Yr enghraifft gynta' sy'n trosglwyddo mwyaf o wybodaeth.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

## 9. Arddull

Mae natur y darllen a'r darllenydd yn effeithio ar hyn hefyd. Ar y cyfan, fydd pobl ddim eisiau gorfod darllen brawddegau sawl gwaith er mwyn eu deall – fe allai drethu eu hamynedd a bod yn boen ar eu dyfais. Efallai y bydd angen ail-ddarllen am fod yr wybodaeth mor syfrdanol neu ddiddorol, ond nid oherwydd yr arddull. Yn y cyd-destun yma, arddull effeithiol ydi arddull glir.

## 10. Brawddegau

Defnyddiwch frawddegau cymharol uniongyrchol. Meddyliwch am y darllenwyr a'u hamgylchiadau. Mae brawddegau aml gymalog yn gofyn ymroddiad mawr ac amodau darllen rhwydd. Darllenwch eich brawddegau'n uchel; os ydi hi'n mynd yn anodd cynnal yr ystyr wrth eu llefaru, mae angen meddwl eto. A'r ateb yn aml ydi gwneud dwy frawddeg ohonyn nhw. Fe fydd gorfod meddwl felly yn eich gorfodi chithau i feddwl yn gliriach hefyd!

## 11. Paragraffau

Mae hyn yn fater o ddiwyg. Mae'n wir ar bapur ac mae'n fwy gwir fyth ar sgrin, fod bloc maith o brint yn blino pobl ac yn anodd o ran cadw trywydd. Mae toriadau paragraff fel anadliadau – mae'n rhaid eu cael nhw'n gyson.

Gwnewch arbrawf bach. Ysgrifennwch bedwar paragraff o tua 45 gair yr un. Yna rhowch nhw i gyd at ei gilydd. Edrychwch ar y pedwar ar wahân ac wedyn y pedwar efo'i gilydd. Pa fersiwn fyddai'n edrych fwyaf deniadol?



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

## 12. Geiriau

Mae gan bob maes ei eirfa dechnegol hanfodol. Ond geirfa dechnegol un grŵp ydi jargon un arall. Rhaid gwahaniaethu rhwng geiriau arbenigol eich maes a geiriau sy'n gyffredin i bawb a bod yn ymwybodol iawn o'r gwahaniaeth.

Os oes modd cyfleu eich syniad trwy eiriau cyffredin, dyna ddylech chi ei wneud.

Weithiau, mae'n rhaid defnyddio'r gair technegol, arbenigol am na fydd yr un arall yn gwneud y gwaith. Ond wedyn rhaid ystyried sut i esbonio ystyr hwnnw. Nid bod yn nawddoglyd ydi hynny, dim ond cydnabod bod gan bawb wybodaeth arbenigol wahanol i'w gilydd.

## 13. Geiriau Cymraeg

Yn anffodus, mae sgrifennu deunydd arbenigol yn Gymraeg yn codi cwestiynau anodd.

Mae yna fwlch cenhedlaeth. Fe fydd pobl ifanc sydd wedi cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfarwydd â llawer o'r geiriau technegol Cymraeg, yn wahanol i'r genhedlaeth hŷn.

Mae yna fwlch hyder. Am ryw reswm mae'n ymddangos ein bod ni'n fwy bodlon derbyn term dieithr yn Saesneg nag yn Gymraeg. Am fod ei sŵn yn fwy cyfarwydd, rydyn ni fel petaen ni'n meddwl ein bod yn ei ddeall.

Mae angen meddwl a thrafod hyn – pryd ddylid cynnwys y fersiwn Saesneg o'r term hefyd, pryd i esbonio term technegol mewn geiriau lleyg ac yn y blaen. Dylid cofio o hyd mai cyrraedd y darllenydd sy'n bwysig.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

## 14. Bywiogrwydd

Clod uchel fyddai clywed darllenwyr yn dweud bod eich erthygl wedi dod â phwnc yn fyw. Mi fyddai hynny'n golygu bod y cynnwys yn ddiddorol ond hefyd bod yr arddull wedi cyfleu hynny'n effeithiol. Meddyliwch mai sgwrsio efo un person yr ydych chi, nid darlithio i lawer neu annerch cynulleidfa.

## 15. Dechrau da

Os na fyddwch chi wedi bachu eich darllenwyr yn y brawddegau cynta', wnân nhw ddim dyfalbarhau. Roedd hynny'n wir ar bapur, mae'n llawer pwysicach ar sgrin. Mae angen bachyn ar y dechrau i hongian y gweddill wrtho. Oes yna ddarlun, un ffaith drawiadol, un cwestiwn canolog, un agwedd a fyddai'n cydio yn nychymyg pobl? Beth am ddechrau gyda hynny? Gwell dechrau gyda rhywbeth penodol, clir na gydag ymson cyffredinol.

## 16. Trosiadau neu ddarluniau

Os oes gynnoch chi syniad cymharol anodd ei gyfleu, ystyriwch a ydi o'n debyg i rywbeth a fyddai'n gyfarwydd i bawb. A oes modd defnyddio hynny i egluro'r hyn sydd gyda chi dan sylw? Ai dyna'r ffordd i gyflwyno'r syniad cyn dechrau ei drafod?

## 17. Golygu

Ymarfer: Golygwch yr arwydd yma sydd ar ochr y ffordd ar droad i fferm. Mae'r arwydd yn dweud:

> 'Wyau Ffresh Ar Werth Yma.'

Eich tasg ydi cael gwared ar bob gair diangen.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Yma – yn amlwg, fydden nhw ddim hanner milltir i lawr y ffordd.

Ar Werth – does neb yn rhoi wyau am ddim, a phe baen nhw mi fyddech chi'n amheus.

Ffresh – hyd yn oed os nac ydyn nhw'n ffresh, does neb am gydnabod hynny.

Felly yr unig air angenrheidiol ydi 'Wyau'.

Bydd pob erthygl yn cael ei golygu gan aelod o Fwrdd Golygyddol *Gwerddon* a/neu Golwg360 gan drafod gyda'r awdur, ond ni fydd proses adolygu gan gymheiriaid/arbenigwyr pwnc.

### 18. Lluniau

Ynghyd a'r erthygl dylid anfon llun addas, rhydd o hawlfraint, o leiaf 640 picsel ar draws a 396 picsel o uchder.

### 19. Y nod (eto)

Meddyliwch am orfod cerdded i lawr coridor hir gyda rhesi o ddrysau ar bob ochr.

Mae pob drws ynghau ac ar bob drws mae enw pwnc a dan enw bob pwnc mae'r geiriau 'diddorol iawn'.

Meddyliwch wedyn am gerdded i lawr y coridor a phob drws yn lled agored a chithau'n gallu edrych i mewn i weld yr holl bethau diddorol sy'n digwydd yno.

Nod *Gwerddon Fach* ydi agor y drysau.

**Dylan Iorwerth a Hywel Griffiths**



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**Nodiadau ychwanegol:**

Mae'n bosib y bydd yr erthygl hefyd yn ymddangos ar wefan *Gwerddon* – trafodir hyn gyda'r awdur.

Efallai y bydd y golygyddion yn addasu ambell erthygl sydd eisoes wedi ymddangos yn *Gwerddon*; os felly, bydd yr awdur gwreiddiol yn cael cyfle i weld, cywiro ac addasu'r fersiwn newydd.

Bydd logo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a *Gwerddon* yn ymddangos ar dudalen *Gwerddon Fach*.

Dylid anfon erthyglau ac ymholiadau at gwybodaeth@gwerddon.cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES